




Rhaglen | Meaningful
Ymgysylltu | Engagement
Ystyrion | Programme

Mae Ymgysylltu Ystyrion yn fodd o ryngweithio rhwng dau neu fwy o bobl, y mae'r holl gyfranogwyr yn elwa ohono. Gall fod mor syml â chael paned o de neu sgwrs, rhoi darn o gerddoriaeth ymlaen a gwrando gyda'ch gilydd neu fynd am dro gyda'ch gilydd.

Pwrpas ymgysylltu ystyrion yw hyrwyddo gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan sicrhau bod yr unigolyn yn cael eu gwerthfawrogi, bod ganddynt ymdeimlad o bwrpas a sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu clywed, eu cynnwys a'u deall. Mae'n bwysig dysgu cymaint ag y gallwch am yr unigolyn a sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei drefnu'n cyd--fynd â'u diddordebau. Gall cynnwys gofawyr a pherthnasau a chwblhau dogfen 'Dyma Fi' neu 'Popeth amdanaf fi' ein helpu i ddeall a theilwra gweithgareddau a dulliau ymgysylltu er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y person.

Adnoddau gwybodaeth defnyddiol a thudalennau gwe.



Sganiwch i gael mynediad at y dudalen we benodol ar gyfer Dementia sydd â'r wybodaeth ddiweddaraf a dolenni i wasanaethau ac adnoddau.


I gael rhagor o wybodaeth am yr uchod cysylltwch â
abb.pcctdementia@wales.nhs.uk



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

**Gofal Dementia
ym Mwrdd Iechyd
Prifysgol Aneurin
Bevan**



Mae'r Tîm Profiad a Chyfranogiad Cleifion yn cefnogi gofal a gwaith dementia ar draws sir Gwent.

Gwella Gofal a Chymorth Dementia

Yn unol â Safonau Llwybr Gofal Dementia Cymru Gyfan, ein nod yw gwella gofal a chymorth dementia i ddinasyddion Gwent. Ein nod yw gweithio gyda phob asiantaeth ac aelod o'r gymuned i ddatblygu gwasanaethau sy'n helpu pobl i fyw gyda dementia.

Mae grwpiau amrywiol yn ein cefnogi i gyflawni nodau'r safonau, ac rydym yn croesawu unrhyw un sydd eisiau cymryd rhan ynddynt drwy'r rhaglen Citizens Listening.

I gael rhagor o wybodaeth am yr uchod cysylltwch â

[**abb.pcctdementia@wales.nhs.uk**](mailto:abb.pcctdementia@wales.nhs.uk)

Siarter Ysbyty sy'n Deall Dementia.

Mae Siarter Ysbyty sy'n Deall Dementia Cymru, a lansiwyd yn 2022, yn cynnig cyfres o ganllawiau sy'n helpu pob ysbyty yng Nghymru i greu'r cymorth, yr amgylchedd a'r adnoddau cywir i helpu'r person â dementia a'u gofalwr tra byddant yn yr ysbyty.

Iechyd yr ymennydd i bawb

Mae ymchwil wedi nodi 14 ffactor risg ar gyfer dementia; mae hyn yn rhoi cyfleoedd i ni i gyd wella ein hiechyd meddwl gan ganolbwyntio ar ffordd o fyw. Mae ymchwil hefyd yn dangos y gallai 40% o achosion dementia gael eu hatal trwy wneud newidiadau i ffordd o fyw. Rydym yn croesawu'r cyfle i rannu'r neges a'r wybodaeth hon gyda grwpiau o fewn y gymuned.

Dysgu am Dementia

Gellir cynnig cyfleoedd dysgu ar amrywiaeth o bynciau sy'n ymwneud â dementia. Gellir eu cyflwyno wyneb yn wyneb neu'n rhithwir, neu gellir cael mynediad at sesiwn sydd wedi'i recordio o flaen llaw.

Gwirfoddolwyr sy'n Gyfeillion i Gleifion Dementia

Mae'r tîm Ffrind i Mi yn cefnogi gwirfoddolwyr i gefnogi pobl sydd â dementia tra byddant yn yr ysbyty, mewn cartrefi gofal ac yn y gymuned.

